

Ardal B – Ysgol Gynradd Lakeside (Cynllun Teithio Llesol) – Ontario Way

Mae'r cynllun yn cynnwys system Unffordd ar Ontario Way y tu allan i Ysgol Gynradd Lakeside a chreu Parth Diogelwch Ysgol â nodweddion Porth iddo drwy gulhau'r ffordd, creu byrddau arafu ac arwyddion rhybudd ysgol.

Bydd y system Unffordd yn dechrau ar Winnipeg Drive ger y gyffordd â Woolaston Avenue, yna'n parhau heibio i'r ysgol ar Ontario Way tua'r gorllewin ar i Woolaston Avenue at y gyffordd â Torrens Drive. Bydd y rhannau o Winnipeg Drive a Woolaston Avenue sy'n weddill yn aros fel llif dwy ffordd.

Bydd croesfan sebra ar fwrdd arafu ar Woolaston Avenue i helpu cerddwyr i fynd a dod yn yr ardal rhwng Tafarn y Discovery a'r ysgol gan ddefnyddio'r llwybr i gerddwyr sydd wedi hen ymsefydlu. Bydd y llwybr hwn hefyd yn cael ei wella yn amodol ar gyllid digonol a datrys unrhyw broblemau perchnogaeth tir.

Yn ogystal â'r Parth Diogelwch Ysgol, bydd cyfyngiad cyflymder newydd o 20mya yn cael ei gyflwyno yn yr ardal a fydd yn cwmpasu Ontario Way, Winnipeg Drive a rhan o Woolaston Avenue. Bydd y newid hwn ar y cyfyngiad cyflymder a'r drefn Unffordd yn gofyn am Ochymyn Rheoli Traffig (GRhT), a fydd yn destun ymgynghoriad gwahanol fel rhan o broses gyfreithiol Gorchmynion Rheoli Traffig.

Bydd gweithredu'r project hwn yn gwella diogelwch ffyrdd yn enwedig i gerddwyr a beicwyr. Mae'r cynllun yn rhan o becyn mwy o waith yn yr ardal o amgylch yr ysgol, sydd â'r nod o hyrwyddo Teithio Llesol ac mae wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru o dan ei gynllun Teithio Llesol.

Gwybodaeth ychwnaegol ynghylch mesurau rheoli traffig

Parthau 20 mya. Wrth deithio 20mya y pellter stopio i gar yw 12 metr (40 troedfedd), o gymharu â 24 metr (75 troedfedd) wrth deithio 30 mya. Mewn damwain bydd perygl o 1 mewn 20 yn unig y bydd car yn lladd cerddwr, o gymharu â pherygl o 1 mewn 2 wrth deithio 30 mya. Mae'r ffactorau hyn yn cyfuno i leihau'r perygl i holl ddefnyddwyr y ffordd. Yn achos cerddwyr mae defnyddio croesfan ac, os oes angen, cerdded ar y ffordd, yn llawer mwy diogel a derbyniol. Mae'n ofyniad statudol bod parthau 20mya yn cynnwys **nodweddion arafu traffig** gyda dim mwy na 100 metr rhyngddynt, a rhaid i'r rhain fod wedi eu dylunio i sicrhau bod cerbydau yn teithio ar gyflymder cyfartalog o 20 mya.

Nodweddion Arafu Traffig. Mae'r term hwn yn cyfeirio at fesurau rheoli traffig ffisegol penodol sy'n gorfodi gyrrwyr i leihau cyflymder cerbydau. Mae'r rhain yn cynnwys twmpathau ffordd, clustogau arafu, byrddau arafu, rhwystrau culhau'r ffordd, rhwystrau igam-ogamu, pyrth arafu, cylchfannau a nodweddion tebyg eraill.

Clustogau Arafu. Mae'r rhain yn ddatblygiad ar y twmpath ffordd. Mae siâp y glustog arafu, a'i lled yn benodol, yn galluogi gyrrwyr i alinio'u cerbyd â'r glustog er mwyn lleihau

effaith y twmpath. Fodd bynnag, rhaid i yrwyr arafu er mwyn gallu gwneud hynny. Mae cerbydau mwy yn benodol yn cael mantais o hyn, ac o ganlyniad mae'r effaith yn llai ar gerbydau'r gwasanaethau brys a theithwyr bws.

Cyffordd Fwrdd. Mae cyffordd fwrdd yn debyg i dwmpath ffordd. Dyrchefir y gyffordd gyfan i greu plattform, sy'n lleihau cyflymder cerbydau. Mae darparu cyffordd fwrdd yn creu cyffordd ddiogelach drwy arafu'r holl gerbydau sy'n agosáu at y gyffordd gan felly gynnig allanfa ddiogelach o bob rhan o'r gyffordd.

Gorchymyn Rheoleiddio Traffig. Cyfyngiadau yw'r rhain, a osodir ar y Briffordd, sy'n cyfarwyddo, rheoli neu wahardd symudiadau defnyddwyr y ffordd. Er enghraifft, cyfyngiadau cyflymder 20 mya. Dim Mynediad. Dim Troi i'r Dde. Traffig Unffordd. Dim Aros. Rhaid i'r rheoliadau hyn fynd trwy broses gyfreithiol hir. Os cânt eu cymeradwyo, gosodir arwyddion neu linellau ar y safle a bydd yr Heddlu neu eu Wardeniaid Traffig yn eu gorfodi.

Bwrdd Arafu. Amrywiaeth yw hwn ar y twmpath arafu lle mae pen uchaf y rhan ddyrchafedig (y bwrdd) dros ddwy fetr o led. Mae hyn yn achosi llai o anesmwythdra i deithwyr bws gan fod yr ardaloedd codi a disgyn wedi eu gwahanu gan y darn dyrchafedig. Defnyddir y rhain weithiau ar y cyd â chroesfannau cerddwyr er mwyn lleihau cyflymder a gwneud y groesfan yn fwy gweladwy i yrwyr.

Croesfan Sebra. Mae'r math hon o groesfan yn addas ar gyfer safleoedd sydd â lefelau canolog o alw gan gerddwyr a llif traffig lle nad oes cyfiawnhad dros **groesfan pâl**. Gall wasanaethu cerddwyr yn well, gan nad oes amser aros penodedig cyn cael yr hawl i groesi. Gellir eu cyfuno'n hawdd â **rhwystrau ymwithiol** sy'n gwella gwelededd i gerbydau, yn lleihau'r pellteroedd croesi ac yn egluro bod cerddwyr yn bwriadu croesi'r ffordd.


Croesfan Sebra â Bwrdd. **Croesfan sebra** sy'n cynnwys bwrdd arafu, neu sydd ar **gyffordd fwrdd**, yn rhan o fesurau ehangach i arafu traffig neu ar ei ben ei hun.

Parth Diogelwch Ysgol: Bydd gan barth diogelwch ysgol fel rheol "borth" i'r parth ar ffurf ffordd ddwyffordd yn culhau ac arwyddion rhybudd ysgol a bydd yn cynnwys dulliau arafu traffig a chroesfan i gerddwyr ynghyd a chyfyngiadau a rheolaeth barcio. Y bwriad yw lleihau cyflymder traffig yng nghyffiniau gatiâu'r ysgol, i gynyddu ymwybyddiaeth gyrrwyr eu bod yn dynesu at ysgol ac i ddarparu adnoddau mwy diogel a chyfleus i gerddwyr (yn enwedig disgyblion ysgol) o fewn y parth. Bydd yr union nodweddion gaiff eu cynnwys mewn parth diogelwch ysgol yn ddibynnol ar ffactorau fel gosodiad y safle, nifer y mynedfeydd i'r ysgol, maint a chyflymder y traffig.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.



Mae rhagor o ffynion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3354 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **15/03/2019**




The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.



Further details about this consultation are available at Cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3354 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **15/03/2019**

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3354 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **15/03/2019**



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at Cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3354 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **15/03/2019**